# Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Rhondda Cynon Taf

Tachwedd 2021

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Rhondda Cynon Taf

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

### 1. Y targed deng mlynedd

Nodwn nad yw'r cynllun yn pennu targed deng mlynedd penodol, ond yn hytrach yn crybwyll yr ystod cynnydd o'r 'isaf' (720/27%) i'r 'uwch' (825/31%) sydd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru, o ran y cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol.

Rydym o'r farn y dylai'r Cyngor Bwrdeistref Sirol fod yn gosod targed penodol, ac y dylai'r targed hwnnw fod yn uchelgeisiol – hynny yw, yn agosach at ben 'uwch' yr ystod.

### 2. Deilliant 1 – Mwy o blant Meithrin/3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Croesawn y diweddariad i'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog', yn ogystal â'r dulliau dosbarthu a amlinellir. Holwn a yw'r bydwragedd, yr ymwelwyr iechyd, a staff lleoliadau Dechrau'n Deg sy'n dosbarthu'r llyfryn wedi derbyn hyfforddiant ynghylch manteision addysg cyfrwng Cymraeg? Faint o siaradwyr Cymraeg sydd ymhlith y timau hyn? Mae'n debygol iawn y bydd rhieni yn gofyn eu barn, ac mae'n bwysig eu bod yn teimlo'n hyderus i roi ymateb llawn a chywir.

Yn yr un modd, teimlwn y dylai hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg fod yn rhan ganolog o'r Rhaglen Iechyd y Gwasanaeth Lles a Chydnerthedd ar ei newydd wedd, gan gynnwys hyfforddiant i'r staff perthnasol i sicrhau eu bod yn hyderus ac yn hyddysg i ddarparu'r cyngor gorau.

Mae'n cynllun yn crybwyll hyrwyddo a marchnata effeithiol, ond mae'n brin iawn o fanylder ynghylch sut bwriedir cyflawni hyn.

Gwerthfawrogwn y wybodaeth a amlinellir ynghylch cludiant disgresiynol. Ni ellir gorbwysleisio pa mor greiddiol yw bod darpariaeth o fewn cyrraedd rhwydd i deuluoedd. Os yw'n rhy bell, neu'n anhylaw o ran llwybrau cludiant, ni fydd teuluoedd yn dewis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn wir o ddarpariaeth feithrin a'r holl ffordd trwy'r system adysg wedyn.

Nid yw'r Cynllun yn cynnig esboniad am y lleihad yn nifer y cylchoedd meithrin dros y 5 mlynedd diwethaf na'r lleihad yn nifer y plant sy'n eu mynychu. Byddai'n bwysig deall y rhesymau dros hyn er mwyn gallu dechrau gweithio ar gynyddu'r ddarpariaeth unwaith eto, ar sail sy'n addas i'r gymuned. Ai'r lleoliad, neu amseru'r sesiynau sy'n peri problem?

Nodwn nad oes unrhyw gyfeiriad yma ychwaith at unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arall sy'n bodoli eisoes, er enghraifft, meithrinfeydd dydd neu ofalwyr plant. Byddai'n bwysig nodi hyn fel gwaelodlin ar gyfer mesur cynnydd.

Rydym yn siomedig dros ben mai addo 'ymarfer mapio' y mae'r Cynllun – pam na wnaed hynny mewn pryd i'w gynnwys yn y Cynllun ei hun, gan ei fod yn dystiolaeth hanfodol ar gyfer y broses o gynllunio strategol? Mae hynny wedi arwain at gynigion sy'n llawer rhy amwys ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth yn yr adran hon o'r Cynllun; nid oes sôn yma o gwbl at ddarpariaeth o fathau penodol mewn lleoliadau penodol ac at gau y bylchau o ran gallu teuluoedd i gyrraedd darpariaeth Gymraeg yn hwylus.

Mae'r Cynllun yn nodi 720 fel y targed ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y Cynllun yn 2032, ond rhaid pwysleisio mai dyma'r nod isaf a rhagnodir gan Lywodraeth Cymru. Pwyswn yn gryf ar y Cyngor Bwrdeistref Sirol i fod yn fwy uchelgeisiol na hynny.

Nid yw'r cysylltiad rhwng y cynigion a'r niferoedd yn y tabl 'Data Allweddol' yn ddigon clir. Sut yn union bwriedir cyrraedd y niferoedd hyn?

### 3. Deilliant 2 – Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Unwaith eto yn yr adran hon rydym yn eithriadol o siomedig nad yw'r gwaith mapio wedi'i wneud er mwyn bod yn sail ar gyfer y cynllunio strategol yn y Cynllun. Cyfeirir yma eto at y targed o ddysgwyr Blwyddyn i fel 720, yn hytrach na ffigwr mwy uchelgeisiol na'r isafswm a ragnodir.

Rhaid inni dynnu sylw at y gwrth-ddweud sydd yn y Cynllun, rhwng ceisio lleoli darpariaeth yn agosach at deuluoedd er mwyn creu mynediad fwy hwylus, a'r cynllun i symud darpariaeth cyfrwng Cymraeg o Gilfynydd (Ysgol Pont Siôn Norton) i safle Heol-y-Celyn.

Croesawn y parodrwydd i ymchwilio i ddulliau eraill o ddarparu ar gyfer hwyr-ddyfodiaid. Fodd bynnag, byddem yn hoffi gweld cynigion mwy pendant yn y maes hwn. Beth yw'r dystiolaeth bod y ddarpariaeth bresennol yn 'gweithio'n effeithiol' – beth yw'r data sy'n sail ar gyfer y datganiad hwn?

Unwaith eto, nid yw'r cysylltiad rhwng y cynigion a'r niferoedd yn y tabl 'Data Allweddol' yn ddigon clir. Sut yn union bwriedir cyrraedd y niferoedd hyn?

**4. Deilliant 3 – Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall**

Holwn pam nad yw'n bosib derbyn amcangyfrif o nifer y plant sy'n gadael Cylchoedd Meithrin i fynd i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mi ddylai fod yn bosib cydweithio gyda'r cylchoedd i gasglu gwybodaeth gan deuluoedd.

Yn gyffredinol mae'r datganiadau yn yr adran hon yn gyffredinol iawn ac heb eu seilio'n ddigonol ar ffigyrau cadarn. Ar gyfer pontio o gylchoedd meithrin i ysgolion cynradd, dywedir bod data o'r pedair blynedd academaidd flaenorol yn dangos bod y canran 'yn cynyddu' – ond beth yw'r ffigyrau? Mae angen cyfeirio atynt yma yn y testun, nid yn yr atodiad yn unig; mae angen eu dadansoddi a'u dehongli. Dywedir nad yw'r amcangyfrif o'r cyfraddau pontio ar gyfer dysgwyr rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd 'yn destun pryder' – ond beth yw'r ffigyrau? Mae angen eu crybwyll, eu dadansoddi a'u denhongli. Mae hyn yn gwbl annigonol fel sail ar gyfer cynllunio strategol.

Mae cydnabyddiaeth yma o'r angen i leoli darpariaeth cyn-ysgol yn agos at ysgolion cyfrwng Cymraeg. Unwaith eto, mae'n eironig felly bod ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg llewyrchus yn ardal Pont Sion Norton yn cael ei symud yn bellach oddi wrth gymuned Cilfynydd.

**5. Deilliant 4 – Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae'n un diffygion o ran data, mapio, a chynigion manwl ar gyfer oes deng mlynedd y Cynllun yn nodweddu'r adran hon.

Mae cydnabyddiaeth bod angen mwy o gydweithio er mwyn ehangu opsiynau, ond nid oes unrhyw gynllun neu gynnig concrit yn hyn o beth, dim ond awgrymiadau amwys. Mae angen mwy na bod 'y Cyngor yn obeithiol' – mae'n rhaid i'r Cyngor cynllunio'n fanwl, yn fwriadus ac yn wirioneddol strategol i sicrhau'r twf.

**6. Deilliant 5 – Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol**

Fel uchod.

**7. Deilliant 6 – Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Unwaith eto, mae'r diffyg cynllunio cadarn yn siomedig iawn.

**8. Deilliant 7 – Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg**

Rydym yn cydnabod na all yr awdurdod ddatrys y broblem hon ar ei phen ei hun, a bod cynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn ddibynnol i raddau helaeth ar gynlluniau cenedlaethol, yn ogystal ag, i ryw raddau, rhanbarthol.

Wedi dweud hynny, mae’r ffigyrau a ddarperir ynghylch staff sydd wedi cwblhau cwrs sabothol yn syfrdanol o isel.



**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru